# Eglwysi'r Deyrnas Unedig a'r Etholiad Cyffredinol

# Cynllunio Cyfarfod Hystingau

**Ydych chi'n ystyried trefnu cyfarfod hystingau? Yn ystod y 35 mlynedd diwethaf mae eglwysi ar draws y wlad wedi dod at ei gilydd i gynnal hystingau – cyfarfodydd cyhoeddus lle gall pobl wrando ar yr ymgeiswyr etholiadol sy'n gobeithio eu cynrychioli yn Senedd y DU a gofyn cwestiynau iddynt. Mae'r cyfarfodydd a noddir gan yr eglwysi'n helpu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth wleidyddol ddilys ar dir niwtral.**

**Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut mae cynllunio cyfarfod o'r fath yn lleol. Mae ein hawgrymiadau wedi'u seilio ar brofiadau pobl sydd wedi trefnu hystingau yn y gorffennol.**

Mae Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) yn cydlynu rhestr o'r holl gyfarfodydd etholiadol, i helpu i sicrhau nad oes dyblygu mewn etholaeth. Os oes gennych ddiddordeb mewn cynnal cyfarfod, ewch i www.churcheselection.org.uk i gofrestru eich diddordeb a nodi'ch manylion. Sylwer bod angen i chi gadarnhau, wrth gofrestru digwyddiad, ei fod yn cael ei drefnu gan eglwysi neu sefydliadau eglwysig (gan gynnwys a ydy hynny ar y cyd â sefydliadau eraill). Unwaith caiff yr etholiad ei alw, bydd adnoddau pellach yn cael eu hychwanegu at y wefan, yn rhoi gwybodaeth am amrywiaeth o faterion y gellid eu codi yn y cyfarfod.

## Pryd bydd yr etholiad yn digwydd?

Y dyddiad hwyraf y gellir cynnal yr etholiad cyffredinol yw 3 Mehefin 2010. Mae llawer o ddadansoddwyr gwleidyddol yn rhagweld y cynhelir yr etholiad ar 6 Mai. Fodd bynnag, gellid galw'r etholiad unrhyw bryd ac os gallwch ddechrau cynllunio cyn gynted â phosib, byddwch yn barod pan gyhoeddir y dyddiad.

## Camau cyntaf

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gweithio orau pan gânt eu trefnu'n eciwmenaidd, felly y peth cyntaf i'w wneud yw ffurfio grŵp cynllunio eciwmenaidd lleol. Gallai hyn ddigwydd dan adain eich grŵp Eglwysi Ynghyd lleol, ond os nad yw hynny'n bosib mae'n well sefydlu grŵp trefnu arbennig sy'n cynnwys cynrychiolwyr o eglwysi gwahanol yn hytrach na gweithredu fel un eglwys neu enwad. Cysylltwch â chynifer o eglwysi â phosib yn eich etholaeth i weld a allwch chi gydweithio. Ystyriwch a ydych hefyd am wahodd aelodau o gymunedau ffydd eraill i fod yn rhan o'r broses. Dylech gynnull y grŵp cyn gynted â phosib.

## Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun arall yn fy etholaeth hefyd yn cofrestru diddordeb mewn trefnu cyfarfod hystingau?

Mae'r system yn eich galluogi i weld manylion cyswllt unigolion a grwpiau eraill sydd â diddordeb mewn trefnu cyfarfod, fel bod modd i chi gysylltu â nhw a chynllunio i weithredu ar y cyd.

## Pa ardal dylem ni gwmpasu?

Yn ddelfrydol dylai fod un cyfarfod etholiadol eglwysig ym mhob etholaeth, ond anaml y mae bywyd mor syml â hynny. Efallai na fydd rhai cyrff eciwmenaidd yn cwmpasu ond rhan o etholaeth, tra bod eraill yn gweithredu ar draws sawl un, e.e.:

- Os yw *Eglwysi Ynghyd yn y Dre Fach* yn rhan o etholaeth *Dre Fach a Maes y Gorllewin*, ceisiwch ymuno ag eglwysi *Maes y Gorllewin* i drefnu cyfarfod ar gyfer yr etholaeth gyfan.

- Fel arall, os yw'r dref wedi'i rhannu'n ddwy etholaeth, *Gorllewin Dre Fach* a *Dwyrain Dre Fach,* sefydlwch grwpiau cynllunio i drefnu dau gyfarfod ar wahân, un ar gyfer pob etholaeth, fel eich bod yn trafod gydag un grŵp o ymgeiswyr ar y tro.

- Os ydych yn byw yn un o'r etholaethau mawr iawn, gallai fod yn fwy ymarferol trefnu dau gyfarfod yn nau ben yr etholaeth yn y pen draw.

## Pryd dylid cynnal y cyfarfod?

Yn y gorffennol, mae ymgeiswyr wedi ymateb yn dda i gyfarfodydd ar nos Sul o fewn y pythefnos cyn diwrnod yr etholiad. Os byddwch chi'n dewis Sul, gellid cynnal y cyfarfod wedi gwasanaeth hwyrol eciwmenaidd, ond dylech egluro bod y cyfarfod yn agored i bawb – p'un a ydynt yn dod i'r eglwys neu beidio.

Peidiwch â phoeni os na allwch gynnal y cyfarfod ar nos Sul. Ystyriwch ddyddiadau posib a cheisio dewis dyddiad cynharach yn hytrach nag un hwyrach. Dewiswch ddyddiad dros dro cyn yr etholiad, ac yna'i gadarnhau unwaith mae'r etholiad wedi'i gyhoeddi.

Cofiwch ddiweddaru eich manylion ar y wefan www.churcheselection.org.uk gan nodi'r dyddiad, yr amser a manylion y lleoliad cyn gynted ag y byddant ar gael. Gallwch anfon e-bost i election@ctbi.org.uk os bydd unrhyw gwestiynau gennych.

## Pwy ddylai gynnal y cyfarfod?

Ceisiwch ddod o hyd i rywun diduedd sy'n uchel ei barch yn eich cymuned i gadeirio'r cyfarfod. Gallai fod yn rhywun eglwysig, yn weithiwr proffesiynol neu'n arweinydd cymunedol. Mae'n hanfodol nad yw'r Cadeirydd yn cael ei uniaethu na'i gysylltu â phlaid wleidyddol. Mae hefyd yn bwysig ei fod ef/bod hi'n gallu cynnal y cyfarfod mewn modd cadarn, a sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n cael eu clywed. Cysylltwch â'r Cadeirydd o'ch dewis cyn i'r etholiad gael ei alw er mwyn sicrhau cytundeb mewn egwyddor, ac yna cadarnhewch y dyddiadau gyda nhw unwaith bydd dyddiad yr etholiad yn hysbys. Bydd angen sicrhau eu bod wedi derbyn manylion llawn (yn enwedig o ran amseriad y cyfraniadau, gweler isod), felly gallai cyfarfod wyneb yn wyneb fod o ddefnydd. Gallai fod o gymorth hefyd i roi copi o'r canllawiau hyn a deunydd arall perthnasol iddynt.

## Sut mae dod o hyd i'r ymgeiswyr?

Mae'r rhan fwyaf o bleidiau etholaeth eisoes wedi enwi eu hymgeiswyr etholiadol, ac mae eu manylion ar gael ar wefannau'r prif bleidiau.

Ymgeiswyr y Blaid Geidwadol:
http://www.conservatives.com/People/Prospective%20Parliamentary%20Candidates.aspx?by=Constituency

Ymgeiswyr y Blaid Lafur: http://www.labour.org.uk/ppc/constituencies/

Ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol: http://www.libdems.org.uk/in_your_area.aspx

Ymgeiswyr Plaid Cymru: http://www.plaidcymru.org/content.php?nID=564;lID=1

Ymgeiswyr Plaid Genedlaethol yr Alban: http://www.snp.org/people/candidates/Westminster

O ran y pleidiau eraill, mae gwybodaeth ar gael yn www.theyworkforyou.com. Fel arall, cysylltwch â swyddfeydd cenedlaethol y pleidiau gwleidyddol i ganfod a oes gan blaid sefydliad lleol yn eich etholaeth a fydd yn medru dweud pwy yw eich ymgeisydd lleol. Bydd gan lawer o ymgeiswyr eu gwefannau eu hunain.

Cysylltwch â'r ymgeiswyr i anfon gwahoddiad cychwynnol, gan egluro nodau'r cyfarfod a sôn am y dyddiad a'r amser a ffafrir. Dylai'r rhain gael eu cadarnhau'n fuan ar ôl galw'r etholiad, ynghyd â manylion yr ymgeiswyr eraill sy'n cael eu gwahodd (gweler isod).

Cewch fanylion unrhyw ymgeiswyr eraill gan eich Swyddog Canlyniadau lleol unwaith bydd yr enwebiadau wedi cau. Mae dyddiadau cau penodol ar gyfer enwebiadau dilys ac fe'u nodir yn yr Hysbysiad Etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fanylion. Unwaith caiff yr etholiad ei alw, bydd yr ymgeiswyr a'u hasiantau etholiadol yn brysur iawn, felly symudwch yn gyflym, a'u ffonio i'w gwahodd i'r cyfarfodydd neu i'w cadarnhau.

## Oes rhaid i ni wahodd yr holl ymgeiswyr?

Nid yw'n gyfreithiol ofynnol i chi wahodd pob un ohonynt i'ch cyfarfod. Yn gyffredinol, polisi'r Eglwysi fu awgrymu gwahodd yr holl ymgeiswyr er sicrhau rhyddid i lefaru, oni bai eich bod o'r farn y gallai gwneud hynny achosi tor-heddwch. Fodd bynnag, mae rhai Eglwysi wedi gwneud datganiadau ar natur annerbyniol

rhai pleidiau eithafol a hiliol, ac efallai y byddwch yn dymuno rhoi sylw i'r rhain, heb roi llwyfan i safbwyntiau o'r fath. Gweler y blwch am ragor o wybodaeth.

> Mae rhestr o ddatganiadau eglwysi gwladol (yn cynnwys Eglwys Loegr, Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr, yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig (URC) a Byddin yr Iachawdwriaeth, yn ogystal â datganiadau eciwmenaidd rhanbarthol a lleol, ar gael yn: www.methodist.org.uk/extremism drwy glicio ar "church statements"
>
> Mae pamffled CTBI *Racial Justice and the Ballot Box* ar gael yn www.ctbi.org.uk/CBA/265

Yn yr un modd gall rhai ymgeiswyr wrthod ymddangos ochr yn ochr ag ymgeiswyr eithafol, neu efallai bydd pryderon y gallai presenoldeb ymgeisydd eithafol wyro ffocws y cyfarfod. Dylid gwneud penderfyniad lleol ynghylch a ddylid peidio â gwahodd unrhyw ymgeisydd.

Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch pwy i'w gwahodd, dylech eu trafod gyda'ch grŵp eciwmenaidd lleol a chysylltu â Swyddog Canlyniadau eich Etholaeth trwy eich awdurdod lleol, neu'r Comisiwn Etholiadol http://www.electoralcommission.org.uk/ am gyngor.

O safbwynt cyfraith etholiadol, nid oes dim i'ch atal rhag eithrio rhai ymgeiswyr, ond gallai hynny olygu rhai goblygiadau i'r ymgeiswyr sydd yn bresennol. Os gwelir digwyddiad fel rhywbeth sy'n hyrwyddo ethol ymgeisydd penodol, byddai angen ei ystyried a'i gynnwys yn nhreuliau etholiadol yr ymgeisydd dan sylw. Wrth drefnu'r cyfarfod dylech roi gwybod i'r ymgeisydd beth fu costau'r trefnu fel bod modd eu rhannu fel cyfraniadau rhwng yr ymgeiswyr sy'n bresennol.
Gweler dogfen y Comisiwn Etholiadol *Guidance on Hustings Events* yn http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/electoral_commission_pdf_file/0008/79910/2009_09_11_Hustings_Topic_Overview_FINAL.pdf neu cysylltwch â nhw ar 020 7271 0616 neu yn www.electoralcommission.org.uk cyn gynted â phosib i gael help i adnabod a chydymffurfio â'r rheolau sy'n berthnasol i'ch digwyddiad chi.

## Beth os bydd ymgeisydd yn gwrthod bod yn bresennol?

Unwaith byddwch chi'n gwybod pwy rydych chi'n eu gwahodd, cysylltwch â'r ymgeiswyr, gan nodi pwy arall sydd wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod. Os bydd ymgeisydd yn cael gwahoddiad ac yn gwrthod neu'n methu dod, dylech gyflwyno eu hymddiheuriadau ar ddechrau'r cyfarfod. Efallai y byddant yn dymuno darparu datganiad byr i'w ddarllen. Y grŵp sy'n trefnu, ynghyd â'r cadeirydd, sydd i benderfynu ar hyn.

## Sut dylem ni roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod?

Unwaith mae'r etholiad wedi cael ei alw, ceisiwch sicrhau bod cynifer o bobl yn gweld cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfod mewn cynifer o ffyrdd â phosib.

Cysylltwch â'r holl eglwysi yn yr ardal leol, gan ofyn iddyn nhw roi posteri i fyny a nodi manylion y cyfarfod yn eu hysbyslen wythnosol. Os oes modd, gofynnwch i aelodau o bob enwad neu eglwys fod yn gyfrifol am roi cyhoeddusrwydd iddo yn eu heglwys eu hun.

Lluniwch restr o fannau cyhoeddus lle gellid hysbysebu manylion y cyfarfod, e.e. llyfrgelloedd cyhoeddus, meddygfeydd, swyddfeydd post, canolfannau cymunedol, ffenestri shop, ffenestri aelodau eglwysig. Gallwch ofyn hefyd i'r cyfryngau lleol hysbysebu'r digwyddiad. Rhowch wybod i'r ymgeiswyr y byddwch yn gwneud hyn, ac anfonwch ddatganiad i'r wasg ymlaen llaw. Gall y datganiad i'r wasg fod yn syml iawn (yn nodi Beth, Pryd, Ble, Pwy a Pham) a dylid ei anfon i'r papurau newydd a'r gorsafoedd radio lleol. Cofiwch gynnwys rhifau ffôn cyswllt a chyfeiriadau e-bost fel bod modd iddynt gael rhagor o fanylion. Mae'n bwysig pwysleisio nad digwyddiadau ymgyrchu yw'r cyfarfodydd hyn, er y gall eglwysi a chyrff Cristnogol fod yn ymgyrchu'n weithgar ar faterion penodol ar adegau eraill.

Penderfynwch sut mae gwneud defnydd da o gyfryngau electronig i helpu gyda'r cyhoeddusrwydd, e.e. blogiau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Efallai y byddwch yn dymuno rhoi gwybod i'r Heddlu bod cyfarfod yn cael ei gynnal.

## Beth am y lleoliad?

Efallai byddwch yn penderfynu cynnal y cyfarfod mewn un o'r eglwysi lleol, neu mewn adeilad arall sy'n fwy cyfleus. Ble bynnag y cynhelir y cyfarfod, dylai fod yn hawdd dod o hyd iddo, yn hygyrch i bobl ag anableddau, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn, a dylai fod dolen glyw yno, os oes modd o gwbl.

**Sain** – Mae'n bwysig cael system sain. Gwiriwch y system ymlaen llaw, a dewis rhywun i fod yn gyfrifol amdani ar y noson. Bydd meicroffon 'llawr' (a rhywun i fynd ag ef o gwmpas!) yn golygu ei bod yn llawer haws derbyn cwestiynau neu sylwadau o'r gynulleidfa, sy'n rhan hanfodol o'r broses.

**Stiwardiaid** – Penderfynwch faint o stiwardiaid bydd eu hangen arnoch i groesawu a helpu pobl. Penderfynwch a fyddwch yn gweini te a choffi. Ceisiwch drefnu gwirfoddolwyr o amrywiaeth o eglwysi.

## Cynnal y cyfarfod…

Y grŵp cynllunio sydd i benderfynu ar amserlen y cyfarfod. Efallai yr hoffech ystyried y strwythur canlynol:

- Croeso gan y Cadeirydd, a fydd hefyd yn disgrifio sut mae'r cyfarfod i gael ei gynnal
- Y Cadeirydd yn cyflwyno'r ymgeiswyr yn gryno, gan nodi eu henwau a'u pleidiau
- Datganiad byr gan bob ymgeisydd (ychydig funudau)
- Cwestiynau o'r llawr, gyda chyfle i bob ymgeisydd ymateb
- Ychydig frawddegau i gloi gan bob ymgeisydd

Cofiwch y gallai fod 5 neu fwy o ymgeiswyr yn bresennol. Bydd angen i chi sicrhau bod y datganiadau a'r atebion yn cadw at derfynau amser pendant. Os nad yw eich Cadeirydd yn awyddus i gadw trefn ar y cyfarfod *a* chadw llygad ar eu stopwats, gallech drefnu bod rhywun yng nghefn yr ystafell yn dal cerdyn i fyny pan fydd gan y siaradwr funud i fynd, ac eto pan fydd yr amser wedi dod i ben.

> Mae'r adnoddau sydd ar gael ar y wefan www.churcheselection.org.uk yn awgrymu ystod eang o faterion a chwestiynau y gellid eu codi yn y cyfarfod. Gellid defnyddio'r rhain i ysgogi trafodaeth cyn y digwyddiad, neu gellid eu crynhoi a'u rhoi i'r gynulleidfa ar y noson.

Mae bob amser yn syniad da trefnu bod rhywun yn barod i ofyn y cwestiwn cyntaf; gall pobl fod yn araf yn cychwyn, ond byddant yn mynd i hwyl yn ddigon buan! Yr eglwysi sy'n trefnu'r cyfarfodydd hyn, ond nid ar eu cyfer hwy y maent, felly dylid annog pobl o bob rhan o'r gymuned i fod yn bresennol a chymryd rhan.

Penderfynwch sut rydych am ymateb i gwestiynau: ydych chi eisiau i bobl o'r gynulleidfa eu cyflwyno ar bapur i'r Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod, neu wrth i'r cyfarfod fynd yn ei flaen? Efallai y byddwch yn dymuno casglu cwestiynau cyn y cyfarfod, fel bod amrywiaeth da o faterion yn derbyn sylw. Bydd hyn yn golygu edrych drwy'r cwestiynau'n gyflym tra bod yr ymgeiswyr yn cael eu cyflwyno. Neu a fyddech chi'n fodlon cymryd cwestiynau o'r llawr? Beth bynnag y byddwch chi'n ei benderfynu, dylid gwneud hynny'n gwbl eglur i'r gynulleidfa ar ddechrau'r cyfarfod.

Gall fod rhai materion lle mae'n briodol gofyn cwestiwn atodol – yn enwedig lle gallai cwestiwn cyffredinol gael ei ddilyn gan gwestiwn mwy penodol. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol, hyd yn oed os bydd pob un o'r pum ymgeisydd yn cael dwy funud yn unig i ateb, y bydd pob cwestiwn yn cymryd deg munud.

Mae'n bosib y bydd angen i'r Cadeirydd gadw'r rhai sy'n holi dan reolaeth – mae pobl wedi dod i glywed yr ymgeisydd, nid nhw!

## Rhestr Wirio

| | Cyn galw'r etholiad | Ar ôl i'r etholiad gael ei alw |
|---|---|---|
| Gwefan | Cofrestru eich cynlluniau hyd yma ar www.churcheselection.org.uk | Diweddaru eich manylion ar y wefan, gan nodi dyddiad, amser a lleoliad pendant ar gyfer eich cyfarfod etholaeth. |
| | | |
| Grŵp Cynllunio | Cysylltu â'r Grŵp Eglwysi Ynghyd/eglwysi eraill yn eich etholaeth. Ffurfio grŵp cynllunio, a chynnal o leiaf un cyfarfod cychwynnol. Llunio rhestr o dasgau. | Cyfarfodydd/cyswllt rheolaidd |
| Dyddiad | Pennu dyddiad (neu ddyddiadau) tebygol ar gyfer y cyfarfod. | Cadarnhau'r dyddiad |
| Ymgeiswyr | Darganfod pwy yw ymgeiswyr y prif bleidiau a chysylltu â nhw, gan eu gwahodd i'r cyfarfod etholiadol mewn egwyddor | Unwaith mae'r enwebiadau wedi cau, sicrhau rhestr derfynol o'r ymgeiswyr. Cysylltu â'r rhai rydych yn eu gwahodd dros y ffôn cyn gynted â phosib er mwyn cadarnhau neu eu gwahodd. Rhoi cyfarwyddyd iddynt ar yr amserlen (gan gynnwys terfynau amser caeth). |
| Lleoliad | Dewis lleoliad a gwirio argaeledd | Cadarnhau'r trefniant. Gwirio'r system sain, a dewis rhywun i fod yn gyfrifol amdani ar y noson. Penderfynu ble bydd yr ymgeiswyr yn eistedd ac a oes angen labeli enwau/pleidiau o'u blaen. |
| Cadeirydd | Dewis rhywun i gadeirio a chysylltu â nhw | Cadarnhau'r dyddiad. Rhoi cyfarwyddyd llawn i'r Cadeirydd ynghylch yr amserlen. Penodi amserydd â stopwats a cherdyn, os bydd angen. |
| Stiwardiaid | Recriwtio stiwardiaid posib | Rhoi cyfarwyddyd i'r stiwardiaid ar groesawu/gweini lluniaeth. Llungopïo'r cyfarwyddyd ar faterion i'r gynulleidfa os bydd angen. |
| Cyhoeddus-rwydd | Trafod a chynllunio'ch cyhoeddusrwydd | Cynhyrchu posteri/gwybodaeth ar gyfer yr arddangosfa.<br>Cysylltu ag eglwysi eraill yn yr ardal.<br>Nodi mannau eraill ar gyfer posteri.<br>Anfon datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol. |

## Ac yn olaf…

Rhowch wybod i ni sut aeth y cyfarfodydd!
Bydd unrhyw awgrymiadau'n cael eu defnyddio gan yr eglwysi ar gyfer yr ymgyrch etholiadol nesaf.

Diolch am eich diddordeb mewn trefnu cyfarfod etholiadol. Rydym yn gobeithio y bydd yn llwyddiannus, ac yn gyfle gwerthfawr i gael y drafodaeth a'r myfyrdod gwleidyddol sy'n angenrheidiol i sicrhau cyfranogiad democrataidd gwirioneddol.

Mae gwybodaeth a chymorth pellach ar gael yn www.churcheselection.org.uk
Ac yn y Comisiwn Etholiadol www.electoralcommission.org.uk

I gael gwybodaeth am ddeunydd a gynhyrchwyd yn benodol ar gyfer etholaethau yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, cysylltwch â:

- Cytûn www.cytun.org.uk/
- Swyddfa Seneddol Eglwysi'r Alban www.actsparl.org
- www.irishchurches.org

*Cynhyrchwyd gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI), 39 Eccleston Square, Llundain SW1V 1BX (www.ctbi.org.uk) ar y cyd â'r cyrff enwadol.*

*Ionawr 2010*